# Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010

**2010 mccc 7**

## RHAN 1

GWASANAETHAU CYMORTH IECHYD MEDDWL SYLFAENOL LLEOL

*Asesiadau iechyd meddwl sylfaenol*

### 10 Camau i'w cymryd yn sgil asesiad iechyd meddwl sylfaenol

(1) Pan fo asesiad iechyd meddwl sylfaenol yn dynodi gwasanaethau o dan adran 9(1)(b) a allai wella iechyd meddwl unigolyn neu atal dirywiad ynddo, rhaid i'r partner iechyd meddwl lleol a gynhaliodd yr asesiad–

(a) os yw'r partner o'r farn mai ef fyddai'r awdurdod cyfrifol dros ddarparu unrhyw un neu ragor o'r gwasanaethau, benderfynu p'un a oes galw am unrhyw un neu ragor o'r gwasanaethau hynny ai peidio; a

(b) os yw'r partner o'r farn nad ef fyddai'r awdurdod cyfrifol dros ddarparu unrhyw un neu ragor o'r gwasanaethau, atgyfeirio at y person y mae'r partner o'r farn mai hwnnw fyddai'r awdurdod cyfrifol dros ddarparu'r gwasanaethau hynny.

(2) Rhaid i atgyfeiriad o dan is-adran (1)(b) hysbysu'r derbynnydd–

(a) bod y partner iechyd meddwl lleol sy'n gwneud yr atgyfeiriad wedi dynodi gwasanaethau y mae o'r farn a allai wella iechyd meddwl yr unigolyn neu atal dirywiad ynddo; a

(b) bod y partner o'r farn mai'r derbynnydd fyddai'r awdurdod cyfrifol dros ddarparu'r gwasanaethau hynny.

(3) Rhaid i berson y gwnaed yr atgyfeiriad iddo benderfynu p'un a oes galw am ddarparu unrhyw un neu ragor o'r gwasanaethau y mae'r atgyfeiriad yn berthnasol iddynt ai peidio.

(4) Yn yr adran hon ystyr "awdurdod cyfrifol" yw'r person a fyddai'n gyfrifol dros ddarparu gwasanaethau pe bai penderfyniad yn cael ei wneud i ddarparu'r gwasanaethau.

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/04/2016.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Adran 10. (See end of Document for details)*

(5) Nid oes dim yn yr adran hon yn ei gwneud yn ofynnol neu'n awdurdodi gwneud atgyfeiriad i awdurdod cyfrifol, wedi ei gyfansoddi ar gyfer ardal sy'n gyfan gwbl o fewn Lloegr neu'n gweithredu ar gyfer y cyfryw ardal yn unig.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 10 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 55(3)**

**I2** A. 10 mewn grym ar 1.10.2012 gan O.S. 2012/2411, **ergl. 2(f)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/04/2016.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Adran 10.